

DIOLCH YN FAWR

Diolch o galon i Angie Burke am drefnu cyfres o ddigwyddiadau 'Te Prynawn' ar ddydd Llun cyntaf mis Mawrth, Ebrill a Mai.

Bu i hyn gasglu cyfanswm o **£165.50**, a bu inni roddi hanner hyn i Wasanaeth Ambiwylans Awyr Cymru a hanner i Fenter Siabod.

Diolch yn fawr iawn hefyd gan Angie i bawb wnaeth gefnogi'r digwyddiadau hyn drwy gyfrannu cacennau a danteithion ac am ddod draw i gefnogi.

Diwrnod Cacennau Bach y Gymdeithas Alzheimer



Mehfin y 14eg

yn y **Pafiliwn**

11.00yb tan 2.00yp



Mae hwn yn ddiwrnod arbennig er mwyn ceisio trechu dementia gyda help cacennau bach ond cryf, gyda'r nod o godi arian ac ymwybyddiaeth er mwyn brwydro yn erbyn dementia.

Mae gan 850,000 o bobl ym Mhrydain dementia, ac mae disgwyl y bydd hyn yn cynyddu i dros 1 miliwn erbyn 2025. Mae cymryd rhan yn y **Diwrnod Cacennau Bach** yn fordd wych o gefnogi gwaith elusennau dementia mwyaf blaenllaw Prydain.

CLWB AMSER CINIO DDYDD GWENER

Taith Ddirgel ar y Bws

Dydd Gwener 26ain o Orffennaf



Seibiant am baned ac ychydig o siopa, yna cinio mewn lleoliad dirgel arall!

£10 (heb gynwys lluniaeth)

Cysylltwch â Eunice ar

01690 750 268 neu Nen ar

01690 750 205 am fwy o wybodaeth.



BYDD CLWB AMSER CINIO DDYDD GWENER

... yn parhau yn y Pafiliwn
Pob dydd Gwener o 11.00yb tan
2.00yp

(ddydd Gwener cyntaf pob mis yn
cyfarfod yn Y Gwydyr 12.30
tan 3.00pm)

Mae croeso i bawb, felly dewch
draw am baned a sgwrs.
Cardiau cyfarch a llyfrau ar werth.